



Cwestiynau Cyffredin

C PRYD FYDD YR ENILLWYR YN CAEL EU CYHOEDDI?

Bydd enillwyr yn cael eu cyhoeddi a'u cyflwyno gyda'u gwobrau yn y seremoni ar ddydd Sul, Mai 29ain, 2011 yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, Bae Caerdydd. Bydd enillwyr hefyd yn cael eu rhestru ar wefan BAFTA Cymru.

C PRYD FYDD FY ARCHEB TOCYNNAU'N CAEL EI GADARNHAU?

Dyddiad cau dychwelyd ffurflenni archebu yw dydd Llun, Mai 9fed 2011. Bydd BAFTA yng Nghymru'n cysylltu â chi erbyn dydd llun Mai 16ain, 2011 i gadarnhau eich archeb.

C PRYD FYDDAF YN DERBYN FY NHOCYN(NAU)?

Am resymau diogelwch, rhaid i bob tocyn gael ei gasglu'n bersonol (neu gan gynrychiolydd enwebedig) o BAFTA yng Nghymru, Canolfan Gelfyddydau'r Chapter, Treganna, Caerdydd CF5 1QE ar ddydd lau 26ain, dydd Gwener 27ain neu fore Sadwrn 28ain o Fai, 2011.

C BETH YW'R COD GWISG?

Gwisg ffurfiol yn unig.

C FYDDAI'N GALLU NODI GYDA PHWY YR HOFFWN EISTEDD?

Bydd seddi yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yn cael eu neilltuo gan swyddfa BAFTA yng Nghymru. Bydd BAFTA yng Nghymru yn gwneud eu gorau i eistedd gwesteion sydd wedi archebu tocynnau ar y cyd gyda'i gilydd.

C FYDD YNO TREFNIADAU EISTEDD FFURFIOL AR GYFER Y 'SWPER & PARTI'?

Ni fydd unrhyw trefniadau ffurfiol ar gyfer 'Swper & Parti' yn y Mercure Cardiff Holland House Hotel & Spa eleni. Bydd ystod eang o brydau a diodydd ar gael gan gynnwys opsiynau i lysieuwyr. Bydd amryw o fannau eistedd gyda thema ar gael yn y gwesty.

C GYDA PHWY DDYLWN I GYSYLLTU YNGLŶN AG UNRHYW OFYNION DIET NEU FYNEDIAD ARBENNIG?

Unwaith i'ch archeb tocyn(nau) gael ei gadarnhau, bydd BAFTA yng Nghymru yn eich holi am wybodaeth.

C BETH YW'R AMSEROEDD AR GYFER Y SEREMONI?

Bydd y seremoni yn cychwyn am 7yh. Bydd amseroedd y seremoni gwobrwyo a'r parti yn cael eu cadarnhau unwaith i'ch archeb tocynnau gael ei gadarnhau a'i brosesu. Bydd bysiau ar gael o du allan Canolfan Mileniwm Cymru i gludo gwesteion i'r Mercure Cardiff Holland House Hotel & Spa.

C SUT YDW I'N ARCHEBU DIODYDD AR GYFER Y NOSON?

Bydd siampên, coctels, gwîn a chwrw ar gael yn ddi-dâl i westeion drwy gydol y noson ac drwy gydol y gwasanaeth bwyd yn y 'Swper & Parti'. Bydd modd i westeion archebu diodydd ychwanegol cyn y digwyddiad (Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â BAFTA yng Nghymru) ac bydd posib prynnu diodydd yn y gwesty gyda'r nos.

C OES YNA OSTYNGIAD YM MHRIS YR YSTAFELLOEDD YN Y GWESTY?

Er hwylustod, rydym wedi cytuno ar ostyngiad pris gyda Mercure Cardiff Holland House Hotel & Spa (£80 G&B Dwbl / £70 G&B Sengl). Nodwch os gwelwch yn dda: rydym yn eich argymhell i archebu ystafelloedd yn gynnar er mwyn osgoi siom. I archebu, cysylltwch â BAFTA yng Nghymru ar 02920 223898 neu e-bostiwch awardscymru@bafta.org